Cadeirydd/Chair: Arwel Ellis Owen
Prif Weithredwr/Chief Executive: Rhian Huws Williams

Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

Hyder mewn Gofal - Confidence in Care

Jeni.meyrick@ccwales.org.uk

6 Ionawr / January 2010

South Gate House
Wood Street
Caerdydd/Cardiff
CF10 1EW
Ffôn/Tel: 029 2022 6257
Ffacs/Fax: 029 2038 4764

www.cgcymru.org.uk
www.ccwales.org.uk

Annwyl Gyfaill,

Cyfeirio unigolion at Gyngor Gofal Cymru a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol

Yn sgil lansio'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a'i Gynllun Fetio a Gwahardd ar 12 Hydref 2009, cyflwynwyd dyletswydd ar y Cyngor Gofal ac ar gyflogwyr i gyfeirio unigolion at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Os bydd unrhyw rai o'ch gweithwyr sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Gofal yn **destun camau disgyblu, hoffem eich atgoffa bod yn rhaid i chi barhau i'w cyfeirio at y Cyngor Gofal** yn ogystal ag at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, ers cyflwyno'r ddyletswydd hon. Mae'n hanfodol eich bod yn gwneud hyn gan y gallai eu gweithredoedd gael mwy o effaith ar eu statws cofrestru â'r Cyngor Gofal nag ar eu statws ar y Cynllun Fetio a Gwahardd. Y rheswm am hyn yw y gall y Cyngor Gofal atal pobl rhag gweithio yn y sector trwy eu tynnu oddi ar y Gofrestr, ond gall hefyd gyflwyno cosbau llai llym am weithredoedd nad ydynt o reidrwydd yn gofyn am atal rhywun rhag gweithio. Mae'r Cyngor Gofal hefyd yn gallu atal unigolyn rhag gweithio dros dro tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal i'w ymddygiad.

Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech anfon y llythyr hwn ymlaen at aelodau perthnasol eich staff sy'n gyfrifol am gyfeirio gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig a gyflogir gennych at y Cyngor Gofal. Dylid cyfeirio pob achos at y Tîm Ymchwilio: ymddygiad@cgcymru.org.uk neu 0845 0700 248.

Mae croeso i chi gysylltu â mi ar 029 2078 0672 neu gerry.evans@cgcymru.org.uk pe bai gennych gwestiwn ynglŷn ag unrhyw un o'r pwyntiau uchod.

Yn gywir

Gerry Evans
Cyfarwyddwr Safonau a Rheoleiddio
Amg.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government